Y Comisiwn Etholiadol

Cyflwyniad

Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sy'n ystyried ymgyrchu mewn etholiadau ond nad ydynt yn sefyll fel plaid wleidyddol nag ymgeisydd.

Cynnwys:

Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid

Pryd y bydd ymgyrchoedd yn cael eu rheoleiddio

Pryd i ddod yn 'drydydd parti cydnabyddedig'

Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

1

Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid

Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon:

Pobl sy'n ystyried ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiad ond nad ydynt yn sefyll fel plaid neu ymgeisydd gwleidyddol.

Mae'r ddogfen yn trafod:

- Cyflwyniad ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid
- Pwy sy'n rheoleiddio ymgyrchoedd
- Pryd y bydd ymgyrchoedd yn cael eu rheoleiddio
- Pryd y bydd arnoch angen cofrestru yn 'drydydd parti cydnabyddedig'

Dogfennau cysylltiedig:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid
- Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid
- Rheoli gwariant ymgyrch ddi-blaid
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Digwyddiadau hysting

2

Crynodeb

Mae pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr yn hanfodol i ddemocratiaeth iach ac rydym yn annog ymgyrchwyr i gymryd rhan weithredol.

Bydd y cyflwyniad hwn yn rhoi'r pwyntiau allweddol i chi am y rheolau ar ymgyrchu di-blaid ac yn dweud wrthych ble y gallwch gael hyd i ragor o wybodaeth.

Cyflwyniad

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau yw ymgyrchwyr di-blaid, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr. Yn y gyfraith etholiadol, rydym hefyd yn galw'r unigolion neu sefydliadau yma yn 'drydydd parti'.

Efallai y byddwch am ymgyrchu ar faterion penodol, neu dros neu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr penodol.

Mae rheolau ar wahân ar gyfer ymgyrchu mewn refferendwm.

Am ragor o wybodaeth gwelwch ein tudalen gyfarwyddyd i ymgyrchwyr mewn refferenda.

Y mathau o ymgyrchoedd di-blaid

Mae dau fath o ymgyrch ddi-blaid.

Sef:

- Ymgyrchoedd lleol – ymgyrchoedd di-blaid dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth, ward neu ardal etholiadol arall.
- Ymgyrchoedd cyffredinol – ymgyrchoedd di-blaid dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, polisi, pwnc penodol neu fath arbennig o ymgeisydd.

Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i'r ddau fath yma o ymgyrch ddi-blaid.

4

Pwy sy'n rheoleiddio'r ymgyrchoedd?

Ymgyrchoedd lleol

Mae ymgyrchu dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn ward neu etholaeth benodol yn cael ei drin gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA) neu ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Nid ydym yn rheoleiddio ymgyrchoedd lleol, na'r rheolau sy'n berthnasol iddynt. Dylid cyflwyno unrhyw gwynion am dorri'r rheolau i'r heddlu.

Am ragor o wybodaeth ar y rheolau ar gyfer y ddau fath o ymgyrchu, gweler y ddogfen hon:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

Ymgyrchoedd cyffredinol

Mae ymgyrchoedd cyffredinol yn cael eu rheoleiddio gennym ni, Y Comisiwn Etholiadol.
Os byddwch yn ymgyrchu dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol, polisïau, problemau penodol neu fathau o ymgeiswyr efallai y bydd angen i chi gofrestru â ni a dilyn y rheolau ar wariant ar ymgyrch, rhoddion ac adrodd yn ôl.

Pryd fydd ymgyrchoedd cyffredinol yn cael eu rheoleiddio?

Mae ymgyrchoedd yn cael eu rheoleiddio yn y cyfnod cyn etholiadau i:

- Senedd Ewrop
- Senedd y Deyrnas Unedig
- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon

Dim ond pan fydd yr etholiad yn disgyn o fewn y cyfnod a reoleiddir ar gyfer un o'r etholiadau a restrir ar y chwith y bydd gwariant ar etholiadau awdurdod lleol yn dod dan y rheolau ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol.

Ar gyfer pob etholiad mae ‘cyfnod a reoleiddir’ y mae’r rheolau ar wariant a rhoddion yn berthnasol ynddo.

Rydym yn cyhoeddi cyfarwyddyd penodol ar gyfer **etholiad bob blwyddyn** sy’n esbonio pryd **y bydd y** cyfnod a reoleiddir yn cychwyn a faint allwch chi ei wario.

Pryd fydd angen i chi gofrestru fel ‘trydydd parti cydnabyddedig’?

Os byddwch yn rhedeg ymgyrch ‘gyffredinol’ a’ch bod yn gwario neu’n bwriadu gwario mwy na £10,000 yn Lloegr neu £5,000 **yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon ar ddeunydd etholiad,** bydd raid i chi gofrestru gyda ni yn ‘drydydd parti cydnabyddedig’.

Yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ‘drydydd parti cydnabyddedig’, rhaid i chi gydymffurfio â’r rheolaeth gyfreithiol ar wariant a rhoddion.

Am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

Pwy all gofrestru yn ‘drydydd parti cydnabyddedig’?

Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau all gofrestru a dod yn ‘drydydd parti cydnabyddedig’:

- Unigolyn sydd wedi cofrestru ar gofrestr etholwyr yn y Deyrnas Unedig neu sy’n preswylio yn y Deyrnas Unedig.
- Plaid wleidyddol a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cwmni a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ei ymgorffori yn yr Undeb Ewropeaidd ac sy’n cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig.
- Undeb llafur a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas Adeiladu a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyng a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sy’n cynnal ei busnes yn y Deyrnas Unedig.

6

- Cymdeithas gyfeillgar, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig.
- Cymdeithas heb ei hymgorffori sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnal y mwyafrif o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Gallwch gofrestru â ni trwy ddefnyddio ffurflen TP1 ar ein gwefan.

Os na allwch gofrestru, ni allwch wario mwy na £10,000 yn Lloegr neu £5,000 yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon ar ymgyrch gyffredinol.

Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0289 089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk